AR GYFER BUSNES
CAMBRIA
FOR BUSINESS

YSGOL FUSNES
CAMBRIA
BUSINESS SCHOOL

# Cyrsiau Byr

## DATRYSIADAU BUSNES
## ARWAIN A RHEOLI

**www.cambria.ac.uk**
0300 30 30 006 | cyflogwyr@cambria.ac.uk

# Cyrsiau Byr

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| CYFATHREBU BUSNES | 04 |
| TIMAU ARWAIN A RHEOLI | 05 |
| ADNODDAU DYNOL | 07 |
| CYLLID | 08 |
| DATBLYGU PERSONOL | 09 |
| ARLOESI A NEWID | 10 |
| CYNALIADWYEDD AC ASESIAD RISG | 11 |
| RHEOLI PROSIECTAU | 12 |
| ANNOG A MENTORA | 13 |

# Cyrsiau Byr

## DATRYSIADAU BUSNES ARWAIN A RHEOLI

### Angen awgrymiadau arbenigol ar faterion allweddol o ran arwain/ rheoli neu Adnoddau Dynol? Neu ydych chi eisiau rhai atebion busnes cyflym sy'n hawdd i'w deall a'u gweithredu?

Mae cynllunio gweithredu ymarferol yn rhan o'n gweithdai felly byddwch yn ennill y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i wneud newidiadau cadarnhaol cyn gynted ag y byddwch yn dychwelyd i'ch gweithle.



Ysgol Fusnes Cambria

### PWY?

Mae'r gweithdai hyn wedi'u hanelu at y rhai sydd â fawr ddim hyfforddiant ffurfiol mewn arwain, rheoli, materion AD neu'r rhai sydd â phrofiad cyfyngedig. Dangosir rhagor o fanylion am gynnwys y sesiwn yn y tudalennau canlynol.

### LLE?

Ysgol Fusnes Cambria, Llaneurgain, CH7 6AA.
Gellir cyflwyno rhai cyrsiau ar-lein.
Cysylltwch am fwy o fanylion.

### CADW LLE AC YMHOLIADAU

Anfonwch e-bost at: **cyflogwyr@cambria.ac.uk**
neu ffoniwch **0300 30 30 006**
Mae llefydd yn brin felly cadwch eich lle yn fuan.

## RHAGLENNI MEWNOL

**Yn ogystal â chynnal rhaglenni agored gallwn gynnal unrhyw un o'r rhaglenni hyn yn fewnol hefyd ar gyfer eich sefydliad.** Mae costau'n cynnwys cynllunio a datblygu'r sesiwn a'i gyflwyno ar safle o'ch dewis. Cofiwch holi os ydych chi eisiau dilyn rhaglen fewnol sydd ddim ar y rhestr gan ei bod yn bosib i ni ddatblygu rhaglen yn benodol ar gyfer eich anghenion. Cysylltwch â ni am ddyfynbris.

# Cyrsiau Byr

## CYFATHREBU BUSNES

### Cadeirio Cyfarfodydd yn Effeithiol
**Tair awr**

Dysgwch sut i drefnu a chadeirio cyfarfodydd yn effeithiol, a gwneud y gorau o amser pawb. Bydd hefyd yn cynnwys sut i ddelio â phroblemau cyffredin a all godi.

### Datblygu Achos Busnes, Rheoli Cwmpas ac Ansawdd
**Un diwrnod**

Meistrolwch sylfeini prosiectau llwyddiannus wrth ddysgu i greu achosion busnes cymhellol, rheoli cwmpas yn effeithiol, a sicrhau canlyniadau o safon uchel. Mae'r cwrs yma yn cynnwys; diffinio ac adeiladu achosion busnes cadarn, sicrhau ymrwymiad rhanddeiliaid, offer a strategaethau rheoli cwmpas hanfodol, ac egwyddorion allweddol cynllunio ansawdd, aswiriant, a rheoli.

### Sut i Gyfathrebu'n Effeithiol
**Tair awr**

Bydd y cwrs hwn yn delio â phwysigrwydd cyfathrebu effeithiol yn y gwaith, y camau yn y broses gyfathrebu a'r rhwystrau gyda chyfathrebu a sut i fynd i'r afael â nhw. Bydd hefyd yn cynnwys sgiliau gwrando gweithredol, cyfathrebu di-eiriau ac iaith y corff, a sut i ddefnyddio adborth i wirio effeithiolrwydd cyfathrebu.

### Cyflwyniad i Sgiliau Hyfforddwr yn y Gweithle
**Un diwrnod**

Mae'r cwrs diwrnod llawn yma wedi'i ddylunio ar gyfer y rhai sy'n cyflwyno hyfforddiant o fewn y gweithle. Mae'n archwilio cysyniadau dull systematig o hyfforddi, gan gynnwys: gosod rheolau sylfaenol, defnyddio gweithgareddau torri'r iâ, yr amgylchedd dysgu, adnoddau hyfforddi, cael a chynnal sylw, cymhelliant, asesu a hunanwerthuso.

### Dweud Stori mewn Busnes
**Tair awr**

Dysgwch sut i ddefnyddio techneg dweud stori i ymgysylltu, ysbrydoli, a pherswadio rhanddeiliaid. Mae'r sesiwn hon yn arfogi cyfranogwyr gyda thechnegau i lunio a chyflwyno straeon busnes effeithiol wrth archwilio: pŵer dweud stori, strwythur stori berswadiol, teilwra ar gyfer cynulleidfa, a chyflwyno'n effeithiol.



# Cyrsiau Byr

## TIMAU ARWAIN A RHEOLI

### Sylfeini ar gyfer Arwain Tîm
**Un diwrnod**

Mae'r cwrs hwn yn berffaith ar gyfer ysbrydoli darpar arweinwyr tîm neu arweinwyr tîm sydd heb hyfforddiant ffurfiol. Mae'n darparu sylfaen o sgiliau craidd a'r wybodaeth sydd ei hangen ar arweinwyr tîm. Mae'n cynnwys:

- Beth yw Arwain a swyddogaeth yr Arweinydd Tîm
- Dulliau Arwain
- Camau Datblygu Tîm
- Rheoli Gwrthdaro
- Rheoli Llif Gwaith
- Rheoli Newid
- Cymell Tîm
- Delio â Phroblemau Perfformiad

### Adeiladu Timau Uchel eu Perfformiad
**Un diwrnod**

Dysgu technegau ar gyfer meithrin cydweithio, hyder ac atebolrwydd o ran timau ac arwain. Darparu cyfranogwyr gyda'r offer a strategaethau ymarferol i adeiladu timau cryfach a mwy cydlynol trwy wella cydweithio, hyder ac atebolrwydd ymhlith aelodau'r tîm a'r arweinwyr. Bydd hynny'n cael ei wneud trwy ddeall sail cydweithio, magu hyder a gyrru atebolrwydd.

### Cynnal Gwerthusiadau Effeithiol
**Tair awr**

Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â chyfrifoldeb y rheolwr atebol gyntaf am reoli cyflawniad amcanion tîm ac unigol. Mae'r pynciau a drafodir yn cynnwys pwrpas a gwerth y broses werthuso, ffyrdd o sicrhau asesiad teg a gwrthrychol a pharatoi i gynnal yr asesiad. Hefyd, sut i gynnal asesiadau ffurfiol, ac egwyddorion ar gyfer rhoi adborth effeithiol ar berfformiad.

### Dirprwyo'n Effeithiol
**Tair awr**

Cynllunio gwaith y timau i gyflawni amcanion a thechnegau ar gyfer penderfynu ar yr unigolyn mwyaf priodol i ymgymryd â'r gweithgaredd. Hefyd, pwysigrwydd gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o wybodaeth a sgiliau pobl, a sut i gyflawni hyn.

### Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Byd Heddiw
**Tair awr**

Mewn oes o raniadau gwleidyddol a chymdeithasol dwfn, mae meithrin Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y gweithle yn bwysicach nag erioed. Mae'r sesiwn ryngweithiol tair awr hon yn torri drwy rethreg hen ffasiwn i ganolbwyntio ar heriau a datrysiadau byd go iawn sy'n sbarduno newid ystyrlon.

# Cyrsiau Byr

## TIMAU ARWAIN A RHEOLI

### Cyflwyniad i Arwain yn Dosturiol
**Tair awr**

Mae'r cwrs byr hwn yn ddelfrydol ar gyfer unrhyw arweinwyr sydd eisiau adfyfyrio ar eu hymddygiad arwain eu hunain a deall rhagor am fanteision arwain yn dosturiol. Mae'n cynnwys:
- Hanes ac ysgogwyr arwain yn dosturiol
- Diffinio tosturi ac arwain yn dosturiol
- Diogelwch seicolegol, cynhwysiant a chymhelliant

### Arwain Gweithlu Aml-genhedlaeth
**Tair awr**

Dysgu strategaethau ymarferol ar gyfer rheoli ac integreiddio timau aml-genhedlaeth i hybu cydweithio, parch a pherfformiad. Mae'r sesiwn hon yn ymdrin â: deall gwahaniaethau rhwng cenedlaethau, meithrin gwaith tîm cynhwysol, addasu arddulliau cyfathrebu, rheoli gwrthdaro, a manteisio ar amrywiaeth ar gyfer arloesi.

### Sgiliau Negodi
**Tair awr**

Bydd y cwrs hwn yn ymdrin â negodi ffurfiol ac anffurfiol, strategaeth negodi, tactegau ac ymddygiad, cyfathrebu di-eiriau a sgiliau cymdeithasol, a thechnegau ar gyfer dylanwadu ar eraill. Hefyd, gwrthdaro a'i ddatrysiad i gyflawni sefyllfa lle mae pawb ar eu hennill.

### Arwain a Chymell Tîm Hybrid
**Tair awr**

Bydd y cwrs hwn yn adeiladu ar brofiadau go iawn o reoli timau hybrid ac yn cyflwyno atebion ymarferol i gefnogi gwaith tîm effeithiol. Bydd y cwrs yn ymdrin â: Deall gwaith hybrid, strategaethau cyfathrebu, meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd, rheoli perfformiad, technoleg ac offer, amrywiaeth a chynhwysiant, llesiant ac iechyd meddwl a datrys gwrthdaro.

### Rheoli Sgyrsiau a Sefyllfaoedd Anodd
**Tair awr**

Archwiliwch y sgiliau rhyngbersonol sydd eu hangen i ragweld ac ymdrin yn effeithiol â sgyrsiau anodd gyda staff. Boed yn gyfweliad recriwtio, ymchwiliad disgyblu neu werthusiad, mae angen i reolwyr ddatblygu eu sgiliau rhyngbersonol. Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar y sgiliau sydd eu hangen i ymdrin â'r sgyrsiau anodd yn effeithlon.

### Rheoli Perfformiad Gwael
**Tair awr**

Mae'r cwrs hwn yn berffaith i reolwyr ddysgu sut i gasglu data sy'n gysylltiedig â materion perfformiad ac i gasglu ffeithiau. Dulliau ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol a ffurfiol sy'n ymwneud â pherfformiad. Hyder i ymdrin â sgyrsiau anodd gydag aelodau staff.

# Cyrsiau Byr

## ADNODDAU DYNOL

### Setiau Dysgu Gweithredol: Defnyddio Sgiliau Datrys Problemau Cydweithredol ar gyfer Llwyddiant Sefydliadol

**Tair awr**

Mae'r cwrs yn rhoi'r wybodaeth a'r offer i reolwyr, arweinwyr tîm a gweithwyr proffesiynol pobl i greu Setiau Dysgu Gweithredol o fewn eu timau a'u sefydliadau. Bydd cyfranogwyr yn dysgu manteision Dysgu Gweithredol a sut mae 'setiau' yn gweithio'n gydweithredol ac yn ymarferol mewn amgylchedd cefnogol i ddatrys problemau a heriau go iawn wrth ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth cyfranogwyr.

### Mynd ati i Ddatblygu'r Gweithlu: Adeiladu Gweithlu Medrus ac Ymgysylltiedig

**Tair awr**

Wedi'i gynllunio ar gyfer arweinwyr sefydliadol, uwch reolwyr a gweithwyr proffesiynol pobl i ddeall sut i adeiladu a chynnal gweithlu medrus ac ymgysylltiedig. Bydd cyfranogwyr yn archwilio strategaethau allweddol ar gyfer asesu'r gweithlu presennol, nodi bylchau sgiliau, a chynllunio ar gyfer anghenion y gweithlu yn y dyfodol sy'n cyd-fynd â chyflawni strategaethau a nodau sefydliadol.

### Sylfeini Rheoli'n Gyfreithiol

**Tair awr**

Meysydd allweddol cyfraith cyflogaeth i reoli staff yn gyfreithlon. Codi ymwybyddiaeth o hawliau statudol ac arfer gorau. Ymdrin â chwynion, rhwymedïau ac amddiffyniad yn erbyn hawliadau cyflogaeth gan ystyried newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth.

### Ymchwilio a Rheoli Disgyblu a Chwynion

**Tair awr**

Polisïau cyflogaeth sefydliadol, agweddau cyfreithiol ar brosesau disgyblu a chwyno, ymddygiad a sgiliau i gynnal disgyblaeth a harmoni yn y gwaith, cofnodion i gefnogi a monitro'r prosesau disgyblu a chwyno.

### Paratoi ar gyfer a Chynnal Cyfweliadau Dethol

**Tair awr**

Y paratoad sydd ei angen cyn y cyfweliad. Y mathau a strwythur y cyfweliadau y gallwn eu cynnal. Cwestiynu mewn cyfweliadau i sicrhau eich bod yn adnabod ac yn dewis yr ymgeisydd mwyaf addas. Ystyried deddfwriaeth drwy gydol y broses.

### Cynllunio Olyniaeth: Datblygu Arweinwyr y Dyfodol ar gyfer Llwyddiant Sefydliadol

**Tair awr**

Mae'r cwrs hwn yn rhoi'r offer i arweinwyr sefydliadol a gweithwyr proffesiynol pobl i ddatblygu a gweithredu cynlluniau olyniaeth effeithiol ar gyfer y dyfodol. Bydd cyfranogwyr yn dysgu sut i nodi rolau allweddol, asesu darpar arweinwyr, a chreu llwybrau datblygu er mwyn cyflawni nodau a dyheadau sefydliadol.

# Cyrsiau Byr

## ADNODDAU DYNOL

### Rheoli Talent: Strategaethau ar gyfer Denu, Datblygu a Chadw'r Talent Gorau

**Tair awr**

Mae'r cwrs hwn yn darparu'r strategaethau hanfodol i arweinwyr a gweithwyr proffesiynol pobl ar gyfer denu, datblygu a chadw talent gorau. Bydd cyfranogwyr yn archwilio technegau recriwtio effeithiol, rhaglenni datblygu gweithwyr, a strategaethau cadw gweithwyr ac yn edrych ar arfer gorau wrth adeiladu grŵp cadarn o dalent, meithrin ymgysylltiad gweithwyr, a chreu cyfleoedd twf ar gyfer unigolion â photensial uchel.



## CYLLID

### Cyllid ar gyfer Rheolwyr nad ydynt yn Rheolwyr Cyllid

**Dau ddiwrnod**

Dewch i ddeall swyddogaeth gyllid mewn busnes. Mae'r cwrs yn ymdrin â:

- Dehongli adroddiadau ariannol a phroffidioldeb a hylifedd
- Technegau costio
- Cyllidebau
- Rhagweld a dadansoddi amrywiant
- Gwerthuso buddsoddiadau a dadansoddi risg

### Cyllid Personol a Chyllidebu

**Un diwrnod**

Dewch i ddysgu am gofnodion cyfrifyddu y mae angen i chi eu cadw, mae'r cwrs byr undydd hwn yn ymdrin â:

- Sut i adolygu perfformiad eich busnes
- Cyflogres a threthiant
- TAW
- Hunanasesiad a threth gorfforaeth.

# Cyrsiau Byr

## DATBLYGU PERSONOL

### Bod yn Bendant ac yn Hyderus
**Tair awr**

Mae'r cwrs hwn yn diffinio hunanhyder a phendantrwydd a rhai technegau ymarferol, corfforol a gwybyddol i'w datblygu. Sut y gallwn newid ein credoau am ein lefel hyder ein hunain.

### Brandio Personol ar gyfer Llwyddiant Gyrfa
**Tair awr**

Mae'r cwrs hwn yn rhoi offer i weithwyr proffesiynol i ddiffinio a chyfleu brand personol cadarn sy'n gwella gwelededd, hygrededd a thwf gyrfa. Mae'r pynciau'n cynnwys; nodi eich cynnig gwerth, llunio datganiad brand, adeiladu presenoldeb cyson, cyfathrebu effeithiol a hybu gwelededd trwy rwydweithio.



### Sgiliau Siarad Cyhoeddus a Chyflwyno
**Tair awr**

Mae'r cwrs hwn yn eich galluogi chi i feithrin hyder a thechnegau ymarferol i gyflwyno cyflwyniadau cymhellol yn eglur ac effeithiol. Mae'r sesiwn hon yn ymdrin â rheoli pryder cyflwyno, strwythuro cynnwys perswadiol, meistroli sgiliau cyflwyno, ac ymdrin â heriau wrth feithrin cysylltiad dilys â'r gynulleidfa.

### Rheoli Amser
**Un diwrnod**

Dysgwch ystod eang o dechnegau ar gyfer rheoli eich amser yn effeithiol, gan gynnwys blaenoriaethu, cynllunio, ac ymdrin â sefyllfaoedd cyffredin sy'n gwastraffu amser.

# Cyrsiau Byr

## ARLOESI A NEWID

### Dyfodol Gwaith - Mega-dueddiadau, Grymoedd Tarfol a Diogelu ar gyfer y Dyfodol

**Tair awr**

Bydd arweinwyr yn cael cipolwg ar gynnydd deallusrwydd artiffisial, awtomeiddio, ac economi'r gig, ochr yn ochr â disgwyliadau esblygol Cenhedlaeth Z a'r Mileniaid mewn arwain. Gydag astudiaethau achos o'r byd go iawn ac offer ymarferol, mae'r sesiwn hon yn rhoi strategaethau i reolwyr sy'n barod ar gyfer y dyfodol i lywio ansicrwydd a gwthio arloesedd.

---

### Arloesi a Newid - Modelau ac Offer Rhan 1

**Tair awr**

Nid yw arloesi yn ymwneud â syniadau newydd yn unig - mae'n ymwneud â meddwl a gweithredu strwythuredig. Yn y sesiwn hon, darganfyddwch y fframweithiau arloesi mwyaf effeithiol, gan gynnwys 4P Tidd a Bessant, y Triongl Arloesi, a Lledaeniad Arloesi. Dysgwch sut i ysgogi newid, annog creadigrwydd, a meithrin diwylliant o arloesi o fewn eich tîm. Ymarferol, pwerus, a pharod i'w weithredu.

---

### Arloesi a Newid - Modelau ac Offer Rhan 2

**Tair awr**

Gan adeiladu ar Ran 1, mae'r sesiwn hon yn archwilio modelau rheoli newid fel 8 Cam Kotter, Damcaniaeth Newid Lewin, a Model Arloesi Gwasanaethau Den Hertog. Dysgwch sut i gymhwyso'r fframweithiau hyn, goresgyn gwrthwynebiad, a chreu llwybr clir ar gyfer trawsnewid llwyddiannus.

### Dadansoddi Systemau Cymhleth - Rheoli Ansawdd Hollgynhwysfawr Rhan 1

**Tair awr**

Dysgwch sut i Ddatgodio Systemau Cymhleth ar gyfer Penderfyniadau Clyfrach! Mewn byd sy'n gynyddol gydgysylltiedig, mae deall cymhlethdod yn allweddol i lwyddiant strategol. Mae'r sesiwn hon yn cyflwyno Meddwl Trwy Systemau, Dadansoddi Ansawdd Cyflawn (TQA), a methodolegau i wneud diagnosis ac optimeiddio gweithrediadau busnes. Dysgwch sut i ddadansoddi problemau cymhleth, datgelu achosion sylfaenol, a gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n sbarduno llwyddiant hirdymor.

---

### Dadansoddi Systemau Cymhleth - Rheoli Ansawdd Hollgynhwysfawr Rhan 2

**Tair awr**

Hybwch berfformiad gydag offer ymarferol! Mae'r sesiwn hon, sy'n adeiladu ar Ran 1, yn archwilio matrics cynllunio cynnyrch Tŷ Ansawdd, Kaizen, a Damcaniaeth Cyfyngiadau. Dysgwch symleiddio prosesau a gwella penderfyniadau trwy astudiaethau achos ac ymarferion, gan ennill pecyn cymorth strategol heb gymhlethdod Chwe Sigma.

# Cyrsiau Byr

## CYNALIADWYEDD AC ASESIAD RISG

### Rheoli Risg a Chynllunio ar gyfer Argyfwng
**Un diwrnod**

Enillwch y wybodaeth a'r offer i reoli risgiau busnes yn rhagweithiol, o'u hadnabod a'u hasesu i'w lliniaru'n effeithiol. Dyma gyfle i wella gwydnwch busnes drwy ddeall mathau o risgiau, defnyddio technegau adnabod fel SWOT a mapio prosesau, a chymhwyso offer asesu ar gyfer blaenoriaethu a lliniaru strategol.



### Ymwybyddiaeth o Beryglon a Risg yn y Gweithle
**Tair awr**

Dysgwch sut i ddarparu dealltwriaeth sylfaenol o beryglon yn y gweithle, asesu risg, a chamau ymarferol y gall unigolion eu cymryd i sicrhau eu diogelwch eu hunain a diogelwch eraill. Mae'r cwrs yn ymdrin â: beth yw peryglon yn y gweithle, asesu risg sylfaenol, diffinio risg, proses asesu risg a mesurau rheoli.



### Ymwybyddiaeth o Gynaliadwyedd yn y Gweithle
**Tair awr**

Mae'r cwrs byr hwn yn darparu dealltwriaeth sylfaenol o gynaliadwyedd gweithle, ei bwysigrwydd, a ffyrdd ymarferol y gall unigolion gyfrannu. Mae'r cwrs yn ymdrin â: Beth yw cynaliadwyedd gweithle, pileri amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, camau ymarferol i unigolion a her ddylunio.

# Cyrsiau Byr

## RHEOLI PROSIECTAU

### Sylfeini Dull YSTWYTH
**Tair awr**

Mae'r cwrs hwn yn berffaith ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ceisio deall egwyddorion craidd, gwerthoedd ac arferion methodolegau dull Ystwyth. Mae'r cwrs hwn yn cynnwys:

- Cyflwyniad i'r dull YSTWYTH - Maniffesto'r dull Ystwyth, gan gymharu dulliau rheoli prosiectau ystwyth â dulliau traddodiadol, cyflwyniad i fframweithiau poblogaidd.
- Ymarfer a swyddi ystwyth, gan gynnwys datblygu iterus, sbrintiau, sesiynau rhannu adborth 'stand-up', swyddi allweddol i gynorthwyo a Chynllunio'r dull ystwyth.
- Cyflwyno'r dull Ystwyth - gan gynnwys creu a blaenoriaethu ôl-groniadau.

---

### Adeiladu Rheoli Prosiectau a Swyddfa Rheoli Prosiectau yn y Busnes
**Dau ddiwrnod**

Dysgwch sut i weithredu egwyddorion Rheoli Prosiectau neu Swyddfa Rheoli Prosiectau yn ymarferol a chynorthwyo timau ar gyfer gweithredu prosiectau'n llwyddiannus. Mae Diwrnod 1 yn ymdrin â sylfeini, aliniad strategol, adeiladu tîm, ac offer gweithredu. Mae Diwrnod 2 yn canolbwyntio ar weithredu, monitro, rheoli risg, cyfathrebu â rhanddeiliaid, a gwelliant parhaus.

---

### Sylfeini Rheoli Prosiectau
**Un diwrnod**

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion sy'n newydd i reoli prosiectau a'r rhai sy'n awyddus i adnewyddu eu sgiliau, gan roi cyflwyniad i gysyniadau hanfodol ac arferion gorau. Ar y cwrs hwn byddwch yn dysgu; beth yw prosiect, dewisiadau cylch bywyd prosiect, sut i gynllunio, gweithredu a chau prosiect, rheoli risgiau, adnoddau a chyfathrebu.

---

### Rheoli Prosiectau'n Ymarferol
**Dau ddiwrnod**

Trawsnewidiwch y ffordd rydych yn arwain a gweithredu prosiect gyda'r cwrs dwys deuddydd hwn. Enillwch sgiliau ymarferol, gweithredol mewn hanfodion rheoli prosiectau, diffinio amcanion, cynllunio, amserlennu, rheoli risg, gweithredu, monitro (Dangosyddion Perfformiad Allweddol, newidiadau sylfaenol, problemau), rheoli rhanddeiliaid, cyfathrebu a sicrhau ansawdd. Mae'r cwrs hefyd yn cynnwys cymhwysiad ymarferol.

---

### Cyfathrebu ac Arwain Prosiectau
**Un diwrnod**

Datblygwch eich sgiliau cyfathrebu ac arwain prosiectau. Mae'r sesiwn ddeinamig hon yn ymdrin ag ymgysylltu â rhanddeiliaid, llywio heriau ac ysbrydoli timau. Archwiliwch sylfeini arwain, meistroli cyfathrebu rhanddeiliaid (adnabod, ymgysylltu, dadansoddi), defnyddio technegau uwch (gwrando gweithredol, rheoli gwrthdaro, cyflwyniadau, deallusrwydd emosiynol), a chymhwyso'r sgiliau hyn i heriau prosiectau yn y byd go iawn.

# Cyrsiau Byr

## ANNOG A MENTORA

### Cyflwyniad i Annog a Mentora
**Un diwrnod**

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion heb unrhyw brofiad o reoli prosiectau o gwbl ac sy'n newydd i'r ddisgyblaeth, gan roi cyflwyniad i gysyniadau hanfodol ac arferion gorau. Ar y cwrs hwn byddwch yn dysgu; beth yw prosiect, dewisiadau cylch bywyd prosiect, sut i gynllunio, gweithredu a chau prosiect, rheoli risgiau, adnoddau a chyfathrebu.

### Sgiliau Annog i Reolwyr
**Tair awr**

Wedi'i ddylunio i gyfarparu rheolwyr ac arweinwyr â thechnegau annog hanfodol i wella perfformiad a datblygiad unigolion a thimau. Bydd cyfranogwyr yn dysgu am fodelau annog a sgiliau annog fel gwrando'n weithredol, cwestiynu, gosod nodau ac adeiladu ymddiriedaeth. Mae sgiliau annog yn galluogi rheolwyr i greu amgylchedd gwaith cadarnhaol a chynhyrchiol lle mae gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u grymuso i gyrraedd eu potensial llawn.

### Mentora'n Effeithiol: Adeiladu Cysylltiadau Ystyrlon
**Tair awr**

Wedi'i gynllunio ar gyfer rheolwyr a gweithwyr proffesiynol pobl i archwilio sut i feithrin perthnasoedd ystyrlon rhwng mentor a'r rhai sy'n cael eu mentora sy'n meithrin twf personol a phroffesiynol. Bydd cyfranogwyr yn dysgu egwyddorion allweddol a manteision mentora llwyddiannus a swyddogaethau a chyfrifoldebau mentoriaid a'r rhai sy'n cael eu mentora mewn perthynas fentora.

### Annog Gweithredol a Busnes
**6 x sesiwn 3 awr**

Mae ein Hanogaeth 1-i-1 a'n Hanogaeth Gweithredol yn helpu arweinwyr busnes, cyfarwyddwyr, uwch reolwyr a rheolwyr i ffynnu, goresgyn heriau a pherfformio ar eu gorau. Mae'r dull hwn yn ysgogi newid trawsnewidiol a pharhaol ar bob lefel, gan gynnwys darpar arweinwyr sy'n llywio eu gyrfaoedd. Mae hefyd yn ddelfrydol ar gyfer rheoli talent, cynllunio olyniaeth a datblygu adborth ôl-360. Mae hefyd yn addas ar gyfer darpar reolwyr/arweinwyr i'w helpu i lywio eu gyrfaoedd i'w helpu i gyflawni eu dyheadau a chyrraedd eu potensial llawn.

### Cyflwyniad i Annog Gweithredol: Offer ar gyfer Datblygu Uwch Arweinwyr
**Tair awr**

Pobl broffesiynol sy'n ystyried annog gweithredol fel offeryn datblygu hynod effeithiol ar gyfer uwch arweinwyr. Bydd cyfranogwyr yn dysgu egwyddorion, proses a manteision annog gweithredol a sut i integreiddio annog gweithredol i'w strategaethau datblygu arwain, gan wella effeithiolrwydd uwch arweinwyr a pherfformiad sefydliadol.

AR GYFER BUSNES
CAMBRIA
FOR BUSINESS

# Ydych chi'n chwilio am gymhwyster mwy manwl?

**Rydym yn cynnig ystod eang o gyrsiau ar gyfer pob math o broffesiynau i helpu i uwchsgilio, atgyfnerthu a datblygu eich gwybodaeth.**

## CYRSIAU DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

**Meithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar eich gweithlu.**

**Mae nifer o gyrsiau datblygiad proffesiynol yn cael eu haddysgu yn ein Hysgol Fusnes Cambria yn Llaneurgain.**

Mae'r Ysgol Fusnes yn amgylchedd dysgu rhyngweithiol modern mewn lleoliad syfrdanol o hardd ac yn cynnig pob lefel o hyfforddiant datblygiad proffesiynol.

Mae gan ein staff ystod helaeth o arbenigedd a phrofiad yn y sector masnachol a chyhoeddus, ac mae gennym enw da am ddarparu rhagoriaeth academaidd ar gyfer llawer o'n cyrsiau.

Rydym yn darparu sesiynau hyfforddi arloesol, rhyngweithiol a chymysg (ar y safle ac oddi ar y safle) sydd wedi'u cynllunio i ymgysylltu ac ysgogi cynrychiolwyr yn llawn a'u datblygu i'w potensial llawn er mwyn eu galluogi nhw i ddysgu ac i fod yn hyblyg ac yn gynhwysol mewn tirwedd ddysgu sy'n newid yn barhaus.

**Cambria yw un o'r darparwyr datblygu proffesiynol mwyaf yn y rhanbarth sydd mewn partneriaeth ag achredwyr adnabyddus megis ILM, AAT, CIPD, PRINCE2, NEBOSH ac IOSH.**

nebosh aat PRINCE2 ilm CIM The Chartered Institute of Marketing CIPD Championing better work and working lives iosh

I gael manylion llawn neu i gael rhagor o wybodaeth am ein cyrsiau, ffoniwch ni ar **0300 30 30 006** E-bost: **cyflogwyr@cambria.ac.uk**
Neu ewch i'n gwefan: **www.cambria.ac.uk**